# Canllaw Adnoddau CBAC TGAU Ffrangeg

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi trosolwg o'r gefnogaeth, yr arweiniad a'r adnoddau sydd ar gael i'r rhai sy'n addysgu'r fanyleb CBAC TGAU Ffrangeg ar draws ein cyfres o wefannau.

## Tudalen we'r pwnc

Tudalen pwnc CBAC TGAU Ffrangeg ar wefan CBAC yw'r man cychwyn i unrhyw un sy'n addysgu'r fanyleb. Mae'n cynnwys amrywiaeth o ddogfennau swyddogol sy'n ymwneud â'r cymhwyster, gan gynnwys y fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftiol a chyn-bapurau.

## Porth

Mae Porth CBAC yn ardal ddiogel i ganolfannau gael mynediad at adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys cyn-bapurau a chynlluniau marcio (cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar y wefan gyhoeddus), yn ogystal â mynediad at ddeunyddiau DPP.

*Er mwyn i athrawon gael mynediad i Porth bydd angen enw defnyddiwr a chyfrinair arnynt. Bydd hyn yn cael ei sefydlu gan eu Swyddog Arholiadau.*

*Mae atebion i gwestiynau cyffredin am Porth i'w gweld yma.*

## Adolygu Arholiadau Ar-Lein

Mae'r wefan Adolygu Arholiadau Ar-lein yn cynnwys arholiadau enghreifftiol wedi'u marcio mewn fformat digidol rhyngweithiol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn lawrlwytho pob adnodd yn llawn ac yn ei agor gan ddefnyddio meddalwedd Adobe i chwarae unrhyw sain.

## Adnoddau Addysgol

Mae'r wefan Adnoddau Addysgol yn cynnwys adnoddau digidol am ddim. Mae'r rhain wedi'u creu gan ein tîm ymroddedig o arbenigwyr pwnc a datblygwyr gwe i gefnogi addysgu a dysgu cymwysterau CBAC.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. | Dogfennau Allweddol |
| 2. | Cyn-bapurau |
| 3. | Cynlluniau Marcio |
| 4. | Adroddiadau Arholwyr |
| 5. | Adolygu Arholiadau Ar-lein (deunydd enghreifftiol wedi'i farcio) |
| 6. | Cylchlythyrau |
| 7. | Deunyddiau DPP |
| 8. | Adnoddau Addysgol |
| 9. | Ffiniau Graddau a Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau |
| 10. | Dyddiadau Allweddol |


| | |
|---|---|
| 11. | Asesiad Di-arholiad Uned 1 Siarad |

# 1. Dogfennau Allweddol


Mae rhestr o'r Dogfennau Allweddol ar gael ar dudalen y pwnc ar wefan CBAC *(Dogfennau Allweddol)*.





Trefnir y dogfennau mewn categorïau, a gellir gweld y dogfennau ym mhob categori trwy glicio ar y saeth tuag i lawr, wrth ochr enw'r categori.





Isod mae cysylltau uniongyrchol i rai o'r dogfennau y bydd eu hangen archoch chi i ddechrau addysgu'r cymhwyster:




TGAU Ffrangeg Iaith: Manyleb





TGAU Ffrangeg Iaith: Canllawiau Addysgu




TGAU Ffrangeg Iaith: Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

# 2. Cyn-bapurau




**Mae papurau cwestiynau o gyfresi arholiadau'r gorffennol ar gael ar gyfer:**


TGAU:

- Uned 1 – Siarad
- Uned 2 – Gwrando
- Uned 3 – Darllen
- Uned 4 – Ysgrifennu


**Cyn-bapurau ar Porth (yn fuan ar ôl diwedd cyfres arholiadau)**

Cyhoeddir cyn-bapurau ar Porth i ddechrau yn fuan ar ôl diwedd y gyfres arholiadau.

I ddod o hyd i gyn-bapurau, dewiswch 'Cyn-bapurau a Chynlluniau Marcio' o'r ddewislen 'Adnoddau' ar ochr chwith y sgrin:




Yna defnyddiwch y cwymplenni i ddewis y papurau yr ydych yn chwilio amdanyn nhw:





**Cyn-bapurau ar y wefan gyhoeddus (hyd at 12 mis ar ôl Diwrnod y Canlyniadau)**


Mae cyn-bapurau yn cael eu cyhoeddi ar y wefan gyhoeddus tua 12 mis ar ôl i ganlyniadau ar gyfer cyfres gael eu cyhoeddi:

| Cyfres | Cyn-bapurau ar y wefan gyhoeddus |
|---|---|
| Cyfres Mehefin | 1-31 Gorffennaf (y flwyddyn ganlynol) |

Gallwch gael mynediad atynt ar dudalen we'r pwnc dan y tab *Cyn-bapurau*.



# 3. Cynlluniau Marcio


GCSE MARKING SCHEME

SUMMER 2022


FRENCH - UNIT 1
HIGHER TIER
3800UA0-1

Mae **cynlluniau marcio** ar gael i gyd-fynd â phapurau cwestiynau o gyfresi arholiadau'r gorffennol, gan roi cyfarwyddiadau ar sut i gymhwyso'r meini prawf marcio, enghreifftiau o gynnwys dangosol, a gridiau asesu yn disgrifio'r disgrifyddion mewn bandiau ar gyfer gwahanol lefelau o ymatebion.


**Cynlluniau marcio ar Porth (o Ddiwrnod y Canlyniadau)**

Mae cynlluniau marcio yn cael eu cyhoeddi i ddechrau ar Porth ar ddiwrnod y canlyniadau ar gyfer y gyfres arholiadau.

I ddod o hyd i'r cynlluniau marcio, dewiswch 'Cyn-bapurau a Chynlluniau Marcio' o'r ddewislen 'Adnoddau' ar ochr chwith y sgrin:




Yna defnyddiwch y cwymplenni i ddewis y cynlluniau marcio yr ydych yn chwilio amdanyn nhw:





**Cynlluniau marcio ar y wefan gyhoeddus (hyd at 12 mis ar ôl Diwrnod y Canlyniadau)**


Mae cynlluniau marcio yn cael eu cyhoeddi ar y wefan gyhoeddus tua 12 mis ar ôl i ganlyniadau cyfres gael eu cyhoeddi:

| **Cyfres** | **Cynlluniau marcio ar y wefan gyhoeddus** |
|---|---|
| Cyfres Mehefin | 1-31 Gorffennaf (y flwyddyn ganlynol) |

Gallwch gael mynediad atynt ar dudalen we'r pwnc dan y tab *Cyn-bapurau*.



# 4. Adroddiadau Arholwyr





Mae adroddiadau'r Uwch Arholwyr yn darparu arsylwadau a sylwadau defnyddiol ar berfformiad ymgeiswyr ar draws y gyfres sy'n cael ei harholi.

Fe'u cyhoeddir ar ddiwrnod y canlyniadau ar gyfer pob cyfres ac maent ar gael ar dudalen we'r pwnc dan *Dogfennau Allweddol.*




# 5. Adolygu Arholiadau Ar-lein (deunydd enghreifftiol wedi'i farcio)





Cyhoeddir set o ddeunydd Adolygu Arholiadau Ar-lein ar gyfer pob cydran arholiad gan ddarparu nifer o ddeunyddiau enghreifftiol glân a rhai wedi'u marcio o ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau allweddol o arholiadau blaenorol.

Mae'r rhain yn galluogi myfyrwyr i adolygu gwaith ymgeiswyr eraill a thrafod ffyrdd y gellid ei wella, gan ddatblygu eu sgiliau eu hunain.

Gallwch gael mynediad at ddeunyddiau enghreifftiol, gan gynnwys rhai 2023, ar ein gwefan hefyd dan *Dogfennau Allweddol > Enghreifftiau*.




***Os ydych chi'n cael mynediad at y ddogfen AAA mewn porwr gwe ac yn gallu gweld un dudalen yn unig, lawrlwythwch y ddogfen a'i hailagor yn Adobe Reader i gael mynediad llawn at y deunydd.***

## 6. Cylchlythyrau



wjec cbac

**January Newsletter 2024**

**GCSE and GCE French, German and Spanish**

Happy New Year to everyone! We hope that you have been able to enjoy a restful Christmas break and had a chance to recharge the batteries for the Spring term. There are a lot of things going on so please take time to read through the newsletter as it contains useful and important information for the new term.

**Qualified for the future: Bringing qualifications to life.**

We are excited to be working closely with a range of stakeholders across Wales to co-construct a new suite of GCSEs as part of Qualifications Wales' '*Qualified for the future*' project.

Our approach will ensure the new qualifications are inclusive, engaging, support the curriculum, and are fit for the future.

Qualifications Wales has published their Decisions Report and Approval Criteria for the new suite of GCSEs. Our Qualification Development Team have been and will continue to actively engage with a broad range of stakeholders to create inspiring, innovative and exciting qualifications for learners in Wales.


**Here to support you**

We will publish specifications by September 2024.

Our Qualifications Development team will provide regular updates throughout the process, and a package of bilingual teaching and learning resources and Professional Learning opportunities will be developed to support the delivery of these new qualifications.

Need further information? Please see our **FAQs** or contact us at **qualificationdevelopment@wjec.co.uk**. Subscribe here for updates.

Cliciwch ar y botwm Tanysgrifiwch am ddiweddariadau ar ochr dde tudalen we'r pwnc i gofrestru i gael y newyddion diweddaraf am y cymhwyster dros e-bost, gan gynnwys y cylchlythyrau pwnc-benodol tymhorol a gyhoeddir bob mis Medi, Ionawr ac Ebrill.




Mae cylchlythyrau'r gorffennol hefyd ar gael o dudalen we'r pwnc dan *Dogfennau Allweddol*.





## 7. Deunyddiau DPP

**Rhaglen DPP flynyddol**

Mae CBAC yn cynnig rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau hyfforddi DPP, sy'n cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb a/neu ar-lein. Maent wedi'u cynllunio ar gyfer ymarferwyr i gael yr holl adborth diweddaraf ar asesiadau, mewnwelediad i'n hadnoddau addysgu, yn ogystal ag amrywiaeth o awgrymiadau a strategaethau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth.

Rhestrir manylion y sesiynau sydd i ddod ar dudalen we'r pwnc dan *Hyfforddiant > Cyrsiau i ddod*.



## Deunyddiau o ddigwyddiadau DPP y gorffennol




Mae deunyddiau o ddigwyddiadau hyfforddi DPP a gynhaliwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol ar gael ar [Porth](). Gallwch gael mynediad at y rhain drwy ddewis Adnoddau a Deunyddiau Pwnc-benodol yn cynnwys DPP*.*





Amlinellir ffocws y ddarpariaeth bob blwyddyn isod.

| | |
|---|---|
| **Hydref 2023** | **Asesu > ymarfer ystafell ddosbarth** – adolygiad o gyfres haf 2023. Yn cynnwys trosolwg o Uned 1 (siarad) ac Uned 4 (ysgrifennu), gydag arsylwadau'r Uwch Arholwr ac enghreifftiau o berfformiad ymgeiswyr. |
| **Hydref 2022** | **Asesu > ymarfer ystafell ddosbarth** – adolygiad o gyfres asesu haf 2022, archwilio enghreifftiau o ymatebion ymgeiswyr wedi'u marcio ac ystyried sut gall adborth ar asesiadau lywio addysgu a dysgu. |
| **Hydref 2021** | **Asesu > ymarfer ystafell ddosbarth** – Datblygu gwydnwch gwrando a darllen ar gyfer TGAU ITM. |
| **Hydref 2020** | **Asesu > ymarfer ystafell ddosbarth** – Datblygu gwydnwch gwrando a darllen ar gyfer TGAU ITM. |
| **Hydref 2019** | **Asesu > ymarfer ystafell ddosbarth –** adolygiad o gyfres haf 2019; canolbwyntio ar Uned 1 Siarad ac Uned 4 Ysgrifennu. |
| **Hydref 2018** | **Asesu > ymarfer ystafell ddosbarth** – adolygiad o gyfres asesu haf 2018, archwilio enghreifftiau o ymatebion ymgeiswyr wedi'u marcio ac ystyried sut gall adborth ar asesiadau lywio addysgu a dysgu. |

### Cyrsiau wedi'u recordio ymlaen llaw

Mae cyrsiau wedi'u recordio ymlaen llaw ar gael ar [dudalen we'r pwnc]() dan [*Hyfforddiant > Cyrsiau ar alw.*]()



**Marcio fel Arholwr**




Nod ein sesiwn 'Marcio Fel Arholwr' yw rhoi'r sgiliau i athrawon i gymhwyso'r cynllun marcio yn gywir ac yn deg. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ddatblygu dealltwriaeth ymgeiswyr o'r cynllun marcio.

## 8. Adnoddau Addysgol

Mae amrywiaeth eang o adnoddau digidol rhad ac am ddim wedi'u datblygu i gefnogi addysgu a dysgu CBAC TGAU Ffrangeg. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan *Adnoddau Addysgol*.

**Mae'r amrywiaeth lawn o adnoddau i'w chael yma ac mae amlinelliad o ddetholiad o'r adnoddau i'w gael isod.**

### TGAU Sbaeneg Uned 1-4 – Adnoddau Dysgu ac Addysgu



Adnoddau Uned 1
Adnoddau Uned 2
Adnoddau Uned 3
Adnoddau Uned 4

### TGAU Thema 1 – Hunaniaeth a Diwylliant



Adnoddau Thema 1, gan gynnwys gweithgareddau gwrando, darllen a chyfieithu rhyngweithiol y gellir eu defnyddio i gefnogi addysgu a dysgu fel dosbarth cyfan neu'n annibynnol.

### TGAU Thema 2 – Cymru a'r Byd; Meysydd Diddordeb



Adnoddau Thema 2, gan gynnwys gweithgareddau gwrando, darllen a chyfieithu rhyngweithiol y gellir eu defnyddio i gefnogi addysgu a dysgu fel dosbarth cyfan neu'n annibynnol.

### TGAU Thema 3 – Cyflogaeth ac Astudiaeth Gyfredol ac yn y Dyfodol



Mae'r adnodd Thema 3 hwn yn cynnig gweithgareddau gwrando, darllen a chyfieithu rhyngweithiol y gellir eu defnyddio i gefnogi addysgu a dysgu fel dosbarth cyfan neu'n annibynnol.

## Arweiniad i'r Arholiad – TGAU Ffrangeg



Mae'r adnodd [Arweiniad i'r Arholiad](), sydd wedi'i anelu at ddysgwyr, yn cynnig awgrymiadau ymarferol ar sut i fynd ati i ateb cwestiynau yn y papur arholiad yn effeithiol. Gan ddefnyddio cwestiynau o gyn-bapurau arholiad, bydd y cyflwyniad PowerPoint hwn sydd â chymorth sain a sgript yn y nodiadau yn 'arwain' yr ymgeiswyr drwy ffug bapur arholiad, gan eu helpu i adolygu ac ymarfer technegau arholiad defnyddiol.

## Trefnwyr Gwybodaeth TGAU Ffrangeg



Banc o [drefnwyr gwybodaeth]() enghreifftiol sy'n ymdrin â phob un o'r is-themâu yn y cymhwyster TGAU Ffrangeg. Gellid defnyddio'r rhain i adolygu neu fel man cychwyn ar gyfer creu eich trefnwyr gwybodaeth eich hunain.

## Adnoddau Iaith




Banc o [adnoddau]() yw hwn, sy'n galluogi athrawon i ddefnyddio eu darnau o destun eu hunain i gynhyrchu amrywiaeth o weithgareddau seiliedig ar iaith.


# 9. Ffiniau Graddau a Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau

**Ffiniau Graddau**

Mae ffiniau graddau cyfresi arholiadau'r gorffennol i'w gweld ar [dudalen we'r pwnc]().





Mae gwybodaeth am ffiniau graddau ar gael ar gyfer pob uned. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis y wybodaeth gywir o'r gwymplen.



Mae'r ffiniau graddau GMU cyffredinol ar gael yn y fanyleb ac ar y dudalen Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau ar y wefan. Mae'r ffiniau hyn yn aros yr un fath bob blwyddyn.

| | A* | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maximum Uniform Mark of 40 | 36 | 32 | 28 | 24 | 20 | 16 | 12 | 8 |
| Maximum Uniform Mark of 50 | 45 | 40 | 35 | 30 | 25 | 20 | 15 | 10 |
| Maximum Uniform Mark of 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 | 18 | 12 |
| Maximum Uniform Mark of 70 | 63 | 56 | 49 | 42 | 35 | 28 | 21 | 14 |
| Maximum Uniform Mark of 75 | 68 | 60 | 53 | 45 | 38 | 30 | 23 | 15 |
| Maximum Uniform Mark of 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 | 24 | 16 |

## Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau





Gall athrawon ddefnyddio Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau i wneud y canlynol:


- Gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn erbyn normau'r fanyleb.
- Nodi cryfderau a gwendidau ar gyfer carfan o ymgeiswyr ac awgrymu meysydd i'w gwella.
- Cynorthwyo ymgeiswyr unigol i wella eu perfformiad eu hunain.

Gallwch gael mynediad ato ar Porth, ac mae'n caniatáu i chi gymharu perfformiad eich myfyrwyr ar bob cwestiwn â pherfformiad ymgeiswyr yn gyffredinol. Gallwch chi weld wedyn lle maen nhw wedi gwneud yn dda a lle gallai fod angen gwella. I wneud hyn, dan y tab 'Canlyniadau', cliciwch ar 'Gweld/Argraffu Data ar Lefel Eitem' neu 'Gweld/Argraffu Perfformiad Canolfan' am ddata cymaradwy.

# 10. Dyddiadau Allweddol

Cliciwch ar y tab Gweinyddu ar frig tudalen y pwnc ar yr ochr dde








i gael mynediad at wybodaeth fel dyddiadau allweddol ac amserlenni, cofrestriadau ac e-Gyflwyno.

# 11. Asesiad Di-arholiad Uned 1

**Dogfennau a Chanllawiau Asesiad Di-arholiad Siarad**

Mae holl ddogfennau a chanllawiau siarad Uned 1 i'w gweld yn adran Asesiad Di-arholiad y wefan. Mae hyn yn cynnwys Ffurflen y Ganolfan ITM – ar ôl ei llenwi, bydd angen ei sganio a'i huwchlwytho i Surpass ynghyd â'r Rhestr Dyraniad Setiau a recordiadau o waith ymgeiswyr ar gyfer Uned 1.




Dyma gyswllt uniongyrchol i ddogfen ganllawiau CBAC TGAU ITM Uned 1 Cyfarwyddiadau i Athrawon .

# 12. Cysylltu â ni

Mae ein tîm pwnc yn hapus i'ch helpu gyda'ch holl ymholiadau sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu ein cymhwyster CBAC TGAU Ffrangeg. Mae ein Swyddogion Pwnc i gyd yn athrawon profiadol ac yma i'ch cefnogi chi i gyflwyno ein cymwysterau.

Cysylltwch â ni dros e-bost: ieithoedd@cbac.co.uk